

**POLICE AND CRIME PANEL**  
**PANEL HEDDLU A THROSEDD**



## **PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

### **ADRODDIAD AR BRAESEPT ARFAETHEDIG Y COMISIYNYDD AR GYFER 2020/2021**

#### **Cefndir**

Gwnaed yr adroddiad hwn yn unol â dyletswydd statudol y Panel Heddlu a Throsedd a gynhwysir ym Mharagraff 3(2), Atodlen 5 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf).

#### **Adolygiad o'r Praesept Arfaethedig**

Rhoddwyd gwybod i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru o braesept arfaethedig y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer 2020/2021 ar 16 Ionawr 2020, yn unol â Pharagraff 2, Atodlen 5 y Ddeddf.

Ystyriodd y Panel adroddiad y Comisiynydd oedd yn amlinellu'r praesept a'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2020/2021, yn ogystal â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ym Modlondeb, Conwy, ddydd Gwener 31 Ionawr 2020. Cylchredwyd atodiad pellach i'r Panel Heddlu a Throsedd ddydd Mawrth 28 Ionawr 2020, er mwyn diweddarau'r Panel yn dilyn cyhoeddiad cyllido o'r Swyddfa Gartref ar 22 Ionawr 2020.

Adolygodd Aelodau'r Panel y cynnydd arfaethedig yn y praesept i £84,990,106 (cynnydd o 4.89% o braesept 2019/2020), a fyddai'n cynyddu Treth y Cyngor o 4.50% (cyfwerth â £290.61 y flwyddyn, cynnydd o £12.51 y flwyddyn, neu 24 ceiniog yr wythnos i eiddo Band D).

Cafodd y Panel hefyd gyflwyniad gan y Prif Swyddog Cyllid (Swyddfa'r Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), a amlygodd y canlynol:

- Diweddariad ar Gyllideb 2019/2020
- Diweddariad ar y buddsoddiad ychwanegol a gytunwyd yn 2019/2020 i ddarparu'r Rhaglen Gwelliant Gweithredol.
- Cylch Cynllunio Cyllideb a Chynllunio Adnoddau Blaenoriaethol, oedd yn darparu ar gyfer dull gweithredu strwythuredig, lle mae Rheolwyr yn nodi amrywiol lefelau gwasanaeth a'r adnoddau sydd eu hangen i'w darparu; roedd

hyn yn golygu y gellid defnyddio'r amcangyfrif o adnoddau oedd ar gael ar gyfer y blaenoriaethau a hysbysu'r dyraniad o 62 o Swyddogion ychwanegol o Ymgyrch 'Uplift'.

- Cyfanswm arbedion a chyfanswm twf.
- Ymatebion Arolwg.
- Dyraniadau Cyllid.
- Newidiadau yn y gyllideb rhwng 2019/2020 a 2020/2021.
- Dyraniadau Canolog (brigdorri).
- Cymharu cyllid rhwng 2019/2020 a 2020/2021.
- Risgiau

Wrth graffu ar y praesept arfaethedig a'r atodiad, cydnabu'r Panel tra y bu cynnydd yn Setliad y Swyddfa Gartref o'r tybiaethau yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, roedd y cynnig o fewn yr adroddiad i gynyddu'r praesept o 4.89% (a fyddai'n cynyddu Treth y Cyngor o 4.5%) yn parhau'r un fath. Roedd hyn oherwydd gofyniad i gyllido Camau 1 a 2 yr ymgyrch Swyddogion 'Uplift' a'r isadeiledd cysylltiol, a'r ansicrwydd ynglŷn â chyllid o 2021/2022 ymlaen.

Cododd y Panel nifer o gwestiynau a phryderon hefyd ynghylch y canlynol:

- Roedd y Panel yn teimlo y dylai'r cynnydd cyflog a gytunwyd yn genedlaethol (gan gynnwys cyfraniadau pensiynau) gael eu cyllido gan Lywodraeth y DU yn hytrach na gan drethi lleol.
- Y swm oedd yn cael ei gadw mewn cronfeydd wrth gefn, oedd bron a chyrraedd pen isaf yr amrediad derbyniol, a'r effaith allai hyn gael ar y Rhaglen Gyfalaf a'r Strategaeth Ystadau wrth symud ymlaen.

Roedd y Panel yn cydnabod bod y Comisiynydd wedi ystyried yr holl opsiynau o fewn yr adnoddau oedd ar gael a'r gwaith sylweddol a wnaed o ran y broses Cynllunio Adnoddau Blaenoriaethol, a fyddai'n galluogi dyrannu 62 o Swyddogion Ymgyrch 'Uplift' yn seiliedig ar y blaenoriaethau. Roedd y Panel hefyd yn cydnabod nad oedd cost llawn y Swyddogion ychwanegol, gan gynnwys cefnogaeth ac isadeiledd, yn wybyddus eto ac felly, o ystyried y ffactorau hyn, roedd y Panel yn teimlo y gallent gefnogi'r cynnydd arfaethedig, er mwyn darparu cyllideb ddigonol i alluogi darparu gwasanaeth plismona gweithredol yng Ngogledd Cymru ar gyfer 2020/2021.

## **ARGYMHELLION:**

**(a) Bod y praesept yn cael ei gynyddu i £84,990,106 ar gyfer 2020/2021.**

- **Bydd hyn yn cynyddu treth y cyngor 4.50% - mae hyn yn gyfystyr â £290.61 y flwyddyn, cynnydd o £12.51 y flwyddyn, neu 24c yr wythnos ar gyfer eiddo band D.**
- **Dyma gynnydd o 4.89% o'i gymharu â phraesept 2019/2020**

**(b) Nodi bod £2.358m o arbedion wedi eu nodi ar gyfer 2020/2021.**

**(c) Nodi y bydd £2.358m o'r arbedion yn cael eu hail-fuddsoddi mewn gweithgareddau rheng flaen.**

**(d) Nodi bod 62 Swyddog Heddlu ychwanegol yn cael eu hariannu gan y Llywodraeth (Ymgyrch 'Uplift).**

**(e) Nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n cynnwys y tybiaethau canlynol:**

- **Y bydd Treth y Cyngor yn cynyddu 4.50% yn 2020/2021 a 4.13% yn 2021/2022, 3.97% yn 2022/2023, 3.81% yn 2023/24 a 3.67% yn 2024/25.**
- **Bydd grantiau plismona'n aros ar y lefelau presennol yn 2021/21 a thu hwnt.**
- **Bydd dyfarniadau cyflog blynyddol yn 2.5% o fis Medi bob blwyddyn.**

03 Chwefror 2020